

Dewi Jones, Dyffryn Nantlle yn rhoi sylwadau ar daith John Lightfoot a Joseph Banks drwy Gymru yn 1773

AR dudalen 53 o lyfr Hugh Davies, y *Welsh Botany*, ceir enw'r Parchedig John Williams, Rheithor Llanfair yng Nghornwy, Môn, fel darganfyddwr y Corrosyn rhuddfannog (*Tuberaria guttata*) mewn safle ar fryn ger ei gartref. Dyma un o flodau gwyllt prinnaf Cymru. O chwilota ymhellach cefais bod enw John Williams yn wybyddus i rai o fotanegwyr blaenllaw I. loegr ar y pryd, ac roedd wedi bod gvda dau ohonynt ar deithiau casglu o amgylch y wlad. Roedd yn amlwg felly bod gwybodaeth ganddo o blanhigion prin rhannau eraill o ogledd Cymru.

Wrth ddarllen taith y Parchedig John Lightfoot drwy Gymru yn 1773 a gyhoeddwyd gan y Parchedig H. J. Riddelsdell yn y *Journal of Botany* 1905 (tt. 290-307), deuais ar draws enw John Williams am yr eildro. Ynddo ceir llythyr dyddiedig 24 Awst 1773 gan Lightfoot at Joseph Banks a chrybwyllir enw John Williams yn gysylltiedig ac un o'r planhigion a gasglwyd ym Môn, sef Cegidfa dail persli (*Oenanthe lachenalii*), a oedd yn amlwg yn peri cryn ddrysych i'r botanegwyr. Meddai: *'I shall set Williams to work next spring to find them.'* Yna, ar ddiwedd y llythyr ceir cyfeiriad 'Mr. Williams'; fel *'Lanvair in Conwey [sic] in Anglesey, North Wales...'*

Gan na chyhoeddodd y Parchedig John Lightfoot lyfr taith fel y gwnaeth ymwelwyr eraill â Chymru yn ystod y 18fed ganrif, fel Bingley a Warner er enghraifft, ychydig â wyr am ei daith yn 1773 yng nghwmni yr enwog Joseph Banks. Roedd Banks wedi darllen am deithiau a darganfyddiadau botanegol yr enwog John Ray yn ystod ei ymweliadau â Chymru yn ystod y ganrif flaenorol ac am ei efelychu. Yn ddiweddarach helaethwyd yn sylweddol ar y darganfyddiadau hynny gan Edward Llwyd a dyna roi cychwyn ar ymweliadau'r teithwyr *dilettante* a fynnai gynnal eu harchwiliadau eu hunain i ddosbarthiad llystyfiant y wlad. Ychydig a grybwyllir gan y teithwyr hyn am ran y Cymry lleol yn ystod eu hymgrychoedd, ond o chwilio daw ambell enw i'r fei o dro i dro.

Mae arysgrif o'i cofnodion a gadwodd Lightfoot o'i daith ar gadw yn yr Amgueddfa Byd Natur, Llundain, ac o'r arysgrif yma y golygodd Riddelsdell a'i gyhoeddi yn 1905. Mae'r rhan fwyaf o gofnodion Lightfoot yn cynnwys rhestrau o'r planhigion a welodd yn ddyddiol ynghyd â'r safleoedd y gwelodd hwy yn tyfu. Diweddarwyd yr enwau planhigion gan Riddelsdell o fel yr oeddant gan Lightfoot i'r hyn yr oeddant yn 1905.

Ganed John Lightfoot (1735-1788) mewn tref o'r enw Newent rhyw naw milltir i'r gogledd-orllewin o Gaerloyw ac addysgwyd ef yn Rhydychen gan raddio'n M.A. Roedd yn Gaplan i Dduges Waddollog Portland a bu'n Rheithor yn Gotham, swydd Nottingham. Teithiodd i'r Alban yng nghwmni Thomas Pennant yn 1722 ac fel botanegydd brwd y cofir ef yn bennaf, drwy ei gyfrol *Flora Scotica* a gyhoeddwyd yn 1777. Yn 1989 cyhoeddwyd ei hanes mewn llyfr o waith Jean K. Bowden yn dwyn y teitl *John Lightfoot [:] his work and travels*.

Mae enw Joseph Banks, cydymaith Lightfoot, yn adnabyddus fel y prif fotanegydd ar daith enwog y Capten Cook o amgylch y byd ar y llong *Endeavour*, rhwng 1768 a 1761, ac mae eu taith drwy Gymru yn cael ei chyfrif fel yr olaf o'r teithiau

botanegol hanesyddol.

Yn ôl llythyr anfonodd Lightfoot at Banks ar 19 Mehefin 1773 mae'n amlwg bod y ddau yn awyddus i gael sbesimen o Lili'r Wyddfa i'w casgliadau, ond fel sawl ymwelydd arall eu siomi a gawsant oherwydd eu bod wedi cyrraedd yn rhy hwyr i'w chael yn flodeuog.

Bwriad y ddau oedd dilyn camrau John Ray ar ei daith ef drwy Gymru yn 1662, ond yn groes. Daeth y ddau deithiwr i Gymru drwy Gas-gwent ar 27 Mehefin, gan fynd ymlaen drwy Gasnewydd, Llandeilo a throi tua sir Benfro. Trodd y ddau yn ôl wedyn a theithio drwy Lanymddyfri am Henffordd, cyn troi am yr Amwythig a Wrecsam. Aethant ymlaen wedyn drwy Abergele, Bangor ac i Lanberis, gan aros yno er mwyn cynnal archwiliad o safleoedd clasurol Eryri. Buont hefyd yn crwydro Môn gan alw yn Llanddwyn, Llanfaelog a Llanfair yng Nghornwy, cartref John Williams.

Ceir tystiolaeth pellach o daith Banks a Lightfoot mewn llythyr oddi wrth y Parchedig Richard Skinner at Gilbert White, dyddiedig 17 Hydref:


'In July I spent an evening with Mr. Banks and Mr. Lightfoot at Brecknock. They had been botanizing through the counties of Glamorgan, Carmarthen and Pembroke, ... They were bound for Snowdon ...'

Mewn llythyr a ysgrifennodd Lightfoot ar 19 Mehefin 1774 i gynghori Syr John Cullum, mewn ateb i ymholiadau'r gŵr hwn ynglŷn â'i ymweliad arfaethedig ag Eryri, ceir manylion am rai o'r bobl leol a fu o gymorth iddo.

'At Bangor it will be proper for you to lay in Provisions & hire a Guide, if you intend to visit Snowdon. I would also recommend it to you to take up your Lodgings in Llanberys Vale, in one of the cottages at the Foot of Snowdon. Mr. Banks & our Companions were at the House of one John Close [Closs], & we had a Man whose name is Hugh Jones to conduct us about the Mountains & carry our Viaticum ... Hugh Jones or some other person in his Stead, will now be your Guide to almost every Plant we found [sic].'

Hugh Jones, Cwmglas Bach, oedd y tywysydd lleol a fu'n gwasanaethu Banks a Lightfoot; roedd y gŵr lleol hwn yn adnabyddus i sawl ymwelydd ac wedi sefydlu ei hun fel arweinydd profiadol. Ymddengys bod John Williams yntau gyda hwy ar y daith i Glogwyn Du'r Arddu ar y 5ed o'r mis. Mynegir y siom o fethu cael gweld Lili'r Wyddfa er iddynt chwilio'r clogwyni clasurol fel Clogwyn y Garnedd, clogwyni uwchlaw Llyn Ffynnon Frech (Llyn Bach bellach) a Chlogwyn Du ymhen y Glyder. Enwir Creigiau Trigfyfychau fel un o'r manau y buont yn chwilio am y lili, ond doedd dim golwg ohoni. Nid oes sicrwydd bellach ymhle yn union oedd Creigiau Trigfyfychau (onibai eu bod yn rhan o'r Glyder uwchlaw Cwm Idwal), er bod y lle yn adnabyddus i fotanegwyr yn oes Edward Llwyd. Mae'n rhaid ymweld â'r safleoedd hyn tua dechrau Mehefin os am weld y lili, ond hyd yn oed wedyn nid yw'n aros yn flodeuog fawr fwy na rhyw bythefnos o fewn ei thymor.

Elwodd haneswyr lleol o ddarllen hanes teithiau hen fotanegwyr y 18fed ganrif i Gymru drwy gael feithiau diddorol ac ambell enw y Cymry lleol a roes loches a chyfarwyddyd iddynt. I'r sawl a fu'n



Llun silwét o Joseph Banks.

ymddiddori yn hanes datblygiad botaneg yng Nghymru, ceir o'r ffynonellau hyn enwau a safleoedd planhigion arbennig ardal, gan osod sylfaen ar gyfer yr astudiaeth o ddosbarthiad daearyddol planhigion fel â gyhoeddwyd yn ystod y 19eg ganrif yng nghyfrolau'r Parchedig Hugh Davies o Fôn a John E. Griffith, Bangor.

Rhoddion

Carys Dafydd, Bethesda: £3
Elwyn Hughes: Bethel £5
Delyth Enaf: Rhydaman £8
M. Lewis: Tregaron £3
Dewi Lloyd, Penybryn, Aberteifi: £3
R. M. Owen, Dinbych: £70
Mary Round, Y Rhyll: £10
Trefor Jones, Llanfarian: £10
Mrs. Ann E. O. Griffith, Porthaethwy: £20
Eifion Lloyd Davies, Penmachno: £3
E. Jones a Mrs. B. W. Jones, Llangefni: £3
Ms. Rh. G. Williams, Dolgellau: £3
Islwyn Williams, Llanelli: £8
Emyr Humphreys, Llanfairpwll: £10
Robert Vale, Llanrhaeadr: £110
Di-enw: £3
Ted Hughes, Bodedern: £300
Wil Owen, Borth-y-gest: £20
Cyril Jones, Pumsaint: £10
Robert Griffith, Creigiau, Caerdydd: £3
Alwyn Evans, Penarth: £3
A. W. Owen, Caerdybi: £3
Mrs. R. Grey Davies, Cefn Mawr: £3
Hafin Clwyd, Rhuthun: £3
David A. Pretty, Pontypridd: £10
Wil Williams, Caerdybi: £3
Ifan Pritchard, Nefyn £4
Y Parch. Philip de la Haye, Y Bala: £4
Miss Gwen Roberts, Llanuwchllyn: £5.50
S. E. Jenkins, Llangeler: £10
John Dilwyn a N. J. Williams, Penygroes: £3
(Mwy i ddod y tro nesaf)

Cynhelir

Cyfarfod Blynyddol Y Gymdeithas
yng Nghellica, Machynlleth
am 1.45p.m., Sadwrn 9 Ebrill
Croeso cynnes i bawb